**DATGANIAD CAFCASS A CAFCASS CYMRU AR FATERION SY'N GYFFREDIN I YMGYNGHORIADAU'R GWEITHGORAU CYFRAITH BREIFAT A CHYHOEDDUS**

Mae Cafcass yn Lloegr a Cafcass Cymru yng Nghymru yn cynrychioli buddiannau plant yn y Llys Teulu ledled Lloegr a Chymru. Mae'r ddau sefydliad wedi bod yn aelodau gweithredol o weithgorau'r Llywydd a sefydlwyd i ystyried arferion, prosesau a chyfleoedd i wella yn y system cyfiawnder teuluol, ac yn gysylltiedig â hi, wrth weithio gyda materion cyfraith gyhoeddus a phreifat. Dylid nodi, er bod y sefydliadau ar wahân i'w gilydd ac yn gweithredu mewn cyd-destunau gwahanol, rydym wedi gweithio'n agos gyda'n gilydd ac adlewyrchir hynny yn y datganiad ar y cyd hwn a hefyd yn ein hymatebion unigol, mwy manwl i'r ymgynghoriadau sydd wedi eu cyfochri'n agos.

Mae **Cafcass** (Gwasanaeth Cynghori a Chynorthwyo Llys i Blant a Theuluoedd) yn gorff cyhoeddus anadrannol a noddir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae Cafcass yn cynrychioli plant mewn achosion llys teulu yn Lloegr. Rydym yn blaenoriaethu anghenion, dymuniadau a theimladau plant, gan sicrhau y clywir lleisiau plant wrth wraidd y lleoliad llys teulu, a bod penderfyniadau yn cael eu gwneud er eu budd gorau. Gan weithredu o fewn y gyfraith a osodir gan y Senedd (Deddf Cyfiawnder Troseddol a Gwasanaethau Llysoedd 2000) ac o dan reolau a chyfarwyddyd y llysoedd teulu, rydym yn annibynnol ar y llysoedd, gwasanaethau plant, awdurdodau iechyd ac addysg a phob asiantaeth debyg.

Rydym ni i yn sefydliad cenedlaethol sy'n canolbwyntio ar Loegr â sail dystiolaeth gyfoethog sy'n cyfuno data achos ar lefel genedlaethol a lleol a mewnwelediadau ymarferol o weithio gyda mwy na 130,000 o blant yn Lloegr bob blwyddyn.

Mae **Cafcass Cymru** yn sefydliad datganoledig sy'n canolbwyntio ar Gymru. Rydym yn rhan o Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ac rydym yn atebol i'r Dirprwy Weinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Trwy Ddeddf Plant 2004 ac yn unol â rheolau a chyfarwyddyd y llys teulu, mae Cafcass Cymru yn darparu cyngor a chymorth arbenigol yn canolbwyntio ar blant, yn diogelu plant ac yn sicrhau y clywir eu lleisiau yn y llysoedd teulu ledled Cymru er mwyn i benderfyniadau gael eu gwneud er eu budd gorau. Rydym ni'n annibynnol o'r llysoedd a'r awdurdodau lleol. Rydym yn gweithio'n agos â Cafcass â'r nod a rennir o ddylanwadu ar y system cyfiawnder

teuluol. Rydym ni hefyd yn gweithio gyda chydweithwyr polisi yn Llywodraeth Cymru i ddylanwad ar wasanaethau ar gyfer plant yng Nghymru.

Yn 2018/19 gweithiodd Cafcass Cymru gyda mwy na 9,000 o blant a theuluoedd ledled Cymru.

Mae Cafcass a Cafcass Cymru yn croesawu gwaith y gweithgorau cyfraith breifat a chyhoeddus i wella canlyniadau i blant a theuluoedd yn y system cyfiawnder teuluol. Mae angen diogelwch, sefydlogrwydd ac amddiffyniad rhag niwed corfforol ac emosiynol ar bob plentyn, ni waeth beth fo'r math o gyfraith. Rydym yn deall pam mae arfer yn y ddau fframwaith cyfreithiol hyn wedi'u hystyried ar wahân ond, yn ein profiad ni, mae cymaint o debygrwydd â gwahaniaeth rhwng y ddau. Nid yw hyn yn syndod o gofio bod y ddau fframwaith yn ymwneud â lles plant sy'n byw mewn teuluoedd sydd dan bwysau, y ceir gweithlu o weithwyr proffesiynol sydd ar y cyfan yn gyffredin, a bod y rhan fwyaf o'r heriau yn systemig.

Trwy gyflwyno ein hymateb i bob un o'r ymgynghoriadau, hoffem felly nodi'r arsylwadau canlynol ar y cyd er mwyn helpu i lywio'r camau nesaf:

1. **Dylai plant a'u teuluoedd fod â rhan weithredol wrth lywio'r camau nesaf er mwyn bod y system yn gweithio ar eu cyfer nhw, nid ar gyfer gweithwyr proffesiynol yn unig.**

Dylai canolbwyntio ar ddeall a diwallu anghenion plant, a hefyd eu teuluoedd, fod yn flaenoriaeth allweddol i unrhyw waith diwygio. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod plant yn gallu deall yr hyn sy'n digwydd a chymryd rhan yn yr achos, os ydynt yn dymuno gwneud hynny, mewn ffyrdd sy'n briodol i'w cam datblygiad. Mae hefyd yn golygu ystyried a lleihau'r potensial o fod effaith negyddol arnynt yn sgil achos llys a chyfathrebu'n glir iddynt pa benderfyniadau sydd wedi eu gwneud a pham.

I sicrhau bod y newidiadau arfaethedig yn canolbwyntio digon ar blant, rydym yn argymell bod y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc yn cael ei gynnwys i fwrw ymlaen â chynigion sy'n codi o'r ymgynghoriadau hyn. Mae'r Bwrdd yn cynnwys sawl aelod o Gymru ac felly byddai Cafcass Cymru yn fodlon bod lleisiau o Gymru'n cael eu cynrychioli. Rydym eisoes yn gwybod mai un o'u blaenoriaethau yw gwella ffyrdd y mae gweithwyr proffesiynol cyfiawnder teuluol yn ceisio ac yn gweithredu ar adborth gan blant er mwyn sicrhau yn well ein bod, ar y cyd, yn diwallu eu hanghenion. Mae hwn yn flwch ar hyn o bryd yn y cynigion ond yn rhywbeth y mae Cafcass a Cafcass Cymru wrthi'n gweithio arno gyda'r Bwrdd ynghylch ein gwasanaethau ni ein hunain a gallai o bosibl gael ei ddatblygu i fod yn ddull ar draws y system.

Rydym ni o'r farn ei bod yn bwysig hefyd i gynnwys teuluoedd wrth ddatblygu a chynnal profion ar y prosesau wedi'u diwygio.

2. **Mae'r hyn sy'n bosibl wedi'i gyfyngu gan y capasiti a'r adnoddau: y system cyfiawnder teuluol a'r gwasanaethau perthynol ar gyfer plant a'u teuluoedd**.

Mae'r ddau adroddiad yn cyfeirio at niferoedd cynyddol o blant a theuluoedd yn dod ger bron y llysoedd - er enghraifft, mae Cafcass yn Lloegr yn ymdrin â 27% yn fwy o achosion nawr nag yr oedd bedair blynedd yn ôl - ac mae hyn yn rhoi straen ar system sydd eisoes yn gwegian. Bu cynnydd tebyg yn Cafcass Cymru dros y cyfnod hwn - cynnydd o 40% mewn ceisiadau am adroddiadau cyfraith breifat ynghyd â chynnydd o 17% mewn gwaith cyfraith gyhoeddus. Mae'n glir bod angen newid, ond mae angen cynllunio, cydgysylltu a darparu adnoddau yn ofalus ar gyfer hyn er mwyn i weithwyr proffesiynol ar draws y system allu parhau i gyflawni eu swyddi wrth baratoi ar ei gyfer.

Hyd yn oed pe byddai arian ychwanegol ar gael, nifer penodol o weithwyr proffesiynol sydd ar gael i'w gyflawni. Mae gwaith eisoes wedi'i wneud i symleiddio'r hyn yr ydym yn ei wneud, ac rydym ni bob amser yn edrych am ffyrdd newydd o weithio a allai wella effeithlonrwydd ymhellach. Hoffem wneud rhagor o waith ar y cyd â'r farnwriaeth a Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Mawrhydi i gyflawni effeithlonrwydd o'r fath gan y bydd methu â gwneud hynny yn cyfyngu ar gyflymder y newid.

Dylid cydnabod mai'r gwir amdani, pa bynnag newidiadau a wneir i brosesau'r llysoedd, na all y Llys Teulu ddatrys yn llawn y problemau a gyflwynir yn yr achosion sydd ger ei fron, a bod gwreiddiau llawn rheoli'r galw mewn mannau eraill. Mae'r ddau adroddiad yn amlygu'r angen am gymorth a gwasanaethau effeithiol ym maes 'atal sylfaenol' ar gyfer teuluoedd fel modd mwy effeithiol o reoli capasiti'r system.

3. **Mae angen cymaint o bwyslais ar gynnal profion a gweithredu ag sydd ar ganllawiau, ac i wneud mwy i gefnogi hyn ar lefel leol yn ogystal ag ar lefel genedlaethol**.

Mae'r angen i weithwyr proffesiynol weithio'n wahanol yn ymarferol yn galw am fwy na chyhoeddi hyfforddiant a chanllawiau ysgrifenedig. Yn y tymor hirach, mae'n bosibl bod angen deddfwriaeth, ond ni allwn fforddio aros amdani, ac mae'r adroddiadau wedi nodi'r camau y gallwn eu cymryd yn y cyfamser. O gofio'r materion cyffredin ar draws y ddau fath o gyfraith, mae'n rhaid ystyried newidiadau fel pecyn cyfunol a bydd angen cefnogaeth yr holl weithwyr proffesiynol a'r asiantaethau sy'n gweithio yn y system cyfiawnder teuluol ledled Cymru a Lloegr- ar sut yn ogystal â beth. Yng Nghymru, ceir nifer fawr o bolisïau sydd wedi'u datganoli i Lywodraeth Cymru ym maes gofal cymdeithasol, addysg ac iechyd (i enwi ond ychydig) ac felly mae angen i unrhyw

newidiadau fod yn sensitif i'r gwirioneddau hyn.  Mae angen i unrhyw ddull fod yn addas i Gymru a Lloegr (gan ganiatáu ar gyfer gwahaniaethau lleol i ystyried anghenion ac amgylchiadau, gan gynnwys gwahaniaethau cyllido a llywodraethu) o ran eu gweithredu'n effeithiol os ydym ni i osgoi'r loteri cod post presennol a gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau ar y cyd.  Ein barn ni yw mai'r modd gorau o gyflawni hyn yw pe byddai'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol – gyda budd cyngor gan y Bwrdd Cyfiawnder Teuluol Pobl Ifanc – yn cymeradwyo, yn blaenoriaethu ac yn goruchwylio'r rhaglen waith angenrheidiol; ac yn sicrhau'r adnoddau er mwyn ei gyflawni.  Ta waeth am hyn, dylai deddfwriaeth yn y dyfodol fod wedi'i llywio gan yr hyn a ddysgwyd o'r rhaglen waith hon.

Mae'r Bwrdd Cyfiawnder Teuluol yn debygol o fod angen cefnogaeth bwrdd rhaglen lefel weithio – wedi'u cymryd o bartneriaid gweithredol ar draws y sector, ac sy'n adlewyrchu Cymru a Lloegr – i gydgysylltu a threfnu'r rhaglen waith.  Yn benodol, bydd angen darparu adnoddau ar gyfer hyn er mwyn canolbwyntio ar brofion ymarferol a gwerthuso newidiadau ar sail 'system gyfan' yn hytrach na gormodedd o gynlluniau treialu ar wahân; a datblygu dull o ymwreiddio newid parhaus ar lefel leol yn ogystal ag yn genedlaethol (Cymru a Lloegr).  Os mai Byrddau Cyfiawnder Teuluol fydd y prif gyfryngau newid yn lleol, bydd angen buddsoddiad a chydgysylltiad sylweddol i sicrhau eu bod mewn sefyllfa i weithredu'r newidiadau yn lleol mewn modd sydd wedi'i gyfochri â blaenoriaethau cenedlaethol yng Nghymru a Lloegr a chyflawni'r disgwyliadau ganddynt.  Rydym hefyd yn rhagweld y bydd angen adolygu'r mesurau a'r dangosyddion perfformiad allweddol presennol er mwyn sicrhau eu bod yn realistig a'u bod yn ysgogi'r ymddygiad cywir – ar draws y sefydliad cyflawni ar lefel genedlaethol a lleol -  yn rhan o'r gwaith o weithredu unrhyw ddiwygiadau.

**Cafcass a Cafcass Cymru**
Medi 2019